Localgiving

# CANLLAW I GODWYR ARIAN

## BETH YW CODWYR ARIAN?

Gall unigolion ymgymryd â her codi arian, gan greu eu tudalen ar-lein eu hunain i ddenu rhoddion. Gall unrhyw un osod eu targed codi arian eu hunain.

## PAM DEFNYDDIO CODWYR ARIAN?

Mae codwyr arian yn llysgenhadon ac yn recriwtio rhoddwyr newydd. Mae elusennau'n cael mwy o incwm o rwydwaith mwy. Ar gyfartaledd, mae elusen yn ennill 16 o roddwyr newydd fesul codwr arian, sy'n codi ymwybyddiaeth.

## SUT I HELPU?

Dylech annog codwyr arian i bersonoli eu tudalennau gyda lluniau a diweddariadau. Rhowch becyn cymorth iddynt gyda logos, deunyddiau hyrwyddo ac awgrymiadau o negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Dathlwch eu cerrig milltir, gan ddiolch i'r codwyr arian a'u rhoddwyr.

## 1 CODWYR ARIAN TRYDYDD PARTI

Mae hyn fel arfer yn cyfeirio at ddigwyddiadau her blynyddol presennol y gall unigolion gofrestru ar eu cyfer yn annibynnol, megis rasys rhedeg. Gall elusennau gyfeirio at y rhain neu brynu llefydd noddedig ar gyfer codwyr arian sy'n ymrwymo i godi isafswm penodol.

## 2 CODWYR ARIAN DAN ARWEINIAD CEFNOGWYR

Mae unigolion yn cyflwyno eu syniad codi arian eu hunain sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n cael ei drefnu'n llwyr ganddynt. Nhw sy'n dewis y ffocws, y raddfa a'r capasiti. Gallant fod mor lleol a rhad ag y bo angen, gyda'r codwr arian yn galw am weithredu.

## 3 CODWYR ARIAN DAN ARWEINIAD ELUSENNAU

Gall yr elusen ei hun gynnal digwyddiad codi arian er mwyn i eraill ymuno. Gofynnwch i gefnogwyr bleidleisio dros eu hoff syniad i sicrhau bod diddordeb.

## 4 DATBLYGU SYNIADAU CRYF

Ystyriwch ffeithiau sylfaenol pob rhwydwaith cefnogwyr, eu perthynas â'r elusen a'r cymhelliant dros gymryd rhan. Dylai codwyr arian dynnu sylw at y gwahaniaeth sylweddol y bydd y targed a ddewisir ganddynt yn ei wneud i'r elusen. Manteisiwch i'r eithaf ar y cyfleusterau a'r sgiliau presennol ar draws eich rhwydweithiau.

## 5 RECRIWTIO CODWYR ARIAN

Gofynnwch i'ch rhwydwaith gynllunio digwyddiadau codi arian, gan gynnwys gwirfoddolwyr, buddiolwyr a'u teuluoedd. Mae timau codi arian yn caniatáu heriau ar y cyd, yn lleihau'r pwysau ac yn dod â nifer o rwydweithiau at ei gilydd. Mae codwyr arian yn gyfle i bobl ddiolch i elusennau am eu help. Awgrymwch dargedau codi arian ystyrlon sy'n cyfateb i ganlyniadau pendant ar gyfer yr achos, er mwyn cryfhau'r 'gofyn'. Dilynwch y canllaw datblygu rhwydwaith.